Adroddiad Blynyddol 2023-24

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru



BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Crynodeb

Nod yr hwb yw cydlynu gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwella iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cefnogi gwaith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Uchafbwyntiau ar gyfer 2023-24

Casglu tystiolaeth a dod â phobl ynghyd i ddod o hyd i ddatrysiadau i broblemau cymhleth, gan gynnwys: Rhwydwaith Defnyddwyr RITA i drafod defnyddio technoleg hel atgofion ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia; ffyrdd o ddefnyddio technegau cyd-gynhyrchu ac adrodd straeon i wella gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth; a gwella cymorth i blant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol.

Gwella mynediad at dystiolaeth drwy ddarparu mewnwelediad i ystadegau ac ymchwil ar gyfer sawl pwnc, yn amrywio o niwroamrywiaeth a dementia i Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a wardiau rhithwir.

Dechrau'r gwaith ar gyfer y Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg o dan y themâu cael y pethau sylfaenol yn iawn, arloesi, cynhwysiant digidol a chofnodion iechyd a gofal integredig. Roedd hyn yn cynnwys nodi prosiectau digidol ar draws y rhanbarth a chynorthwyo i hwyluso cais SBRI llwyddiannus am £200,000 i brofi model darparu gofal cartref modern, newydd yn Nhorfaen, Gwynedd, a Sir Ddinbych, wedi'i danategu gan system TG pwrpasol.

Darparu cymorth ymchwil gan gynnwys sesiynau cyngor ac awgrymiadau astudiaethau achos a fframwaith caniatâd a moeseg ar gyfer y Gronfa Integreiddio Ranbarthol; dylunio dangosfwrdd i fesur cynnydd rhanbarthol yn erbyn Cod Ymarfer Awtistiaeth; a dadansoddi cannoedd o ymatebion meddylgar i Ymgyrch Gwrando ar Ddementia ar draws chwe thref yng Ngogledd Cymru.

Gan gydweithio'n agos â hybiau rhanbarthol eraill a sefydliadau cenedlaethol, aethom ati i rannu, hyrwyddo a datblygu syniadau newydd, gan gynnwys fel rhan o Rwydwaith Arloesi Gogledd Cymru. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd nifer dilynwyr ein cyfrif Twitter/X wedi cynyddu i 450, gyda dros 200 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (CARh).

Dilynwch ni ar Twitter/X @_NW_RICH, cofrestrwch i dderbyn ein newyddlen ac ewch draw i dudalennau gwe hwb CARh i gael rhagor o wybodaeth.

Ym mis Ebrill 2022, ail-frandiwyd yr hwb fel Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (arferai gael ei adnabod fel Hwb Cydlynu Ymchwil, Arloesi a Gwelliant), sef rhan o Raglen Arloesi, Technoleg a Phartneriaethau Llywodraeth Cymru.

Y flwyddyn mewn ffigyrau

400 o negeseuon Twitter	**450** o ddilynwyr ar Twitter	**40** o chwiliadau llenyddiaeth
10 newyddlen	**205** yn tanysgrifio i'r newyddlen	
11% o gynnydd yn y nifer sy'n ymweld â'r wefan		**7** crynodeb tystiolaeth

Dwyn pobl ynghyd i arloesi

Nid oes gan un person yr ateb o ran sut i ddatrys problemau cymhleth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Eleni mae'r hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (CARh) wedi arbrofi gyda gwahanol ddulliau o ddwyn pobl ynghyd i ddysgu a chanfod ffyrdd newydd o weithio. Gan ategu at ein gwaith gyda'r prosiect Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP), mae Mike Corcoran o Lab Cyd-gynhyrchu Cymru wedi bod yn gweithio gyda ni fel hwylusydd i ganfod datrysiadau creadigol i gael y gorau o'n cyfarfodydd.

Ystyriaethau radical gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

> "To be truly radical is to make hope possible rather than despair convincing."
>
> Raymond Williams

Gofynnwyd i ni archwilio syniadau radical a allai helpu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fynd i'r afael â'r heriau y mae iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hwynebu. Ar ôl gwylio llwyth o TED Talks, darllen llyfrau ac erthyglau llawn ysbrydoliaeth, daeth i'r amlwg mai'r lle gorau i ddechrau yw dwyn pobl ynghyd.

Dechreuodd y gweithdy cyntaf drwy ddiffinio ystyriaethau radical - mae'n ymwneud ag amharu, arloesi, cymryd risg, angerdd ac effaith. Bu i ni drafod nad yw bod yn 'radical' yn ddiben ynddo'i hun gan y gallai achosi niwed a buddion i bobl. I liniaru hyn, bu i ni lunio cyfres o egwyddorion arweiniol o ran sut a ble y gellir bod yn radical yn bwrpasol er gwell. Mae hyn yn cynnwys casglu straeon gan y rhai sydd â phrofiad bywyd er mwyn hysbysu dyluniad a darpariaeth gwasanaethau, trefnu sgyrsiau i gysylltu â'r holl bartneriaid sydd â diben a rennir yn yr heriau ar y cyd, archwilio ffyrdd newydd o wneud mwy gyda'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael, rhoi caniatâd i bobl weithredu, a rhannu cyfrifoldeb rhwng aelodau'r bwrdd.

Ymhellach Ynghynt

Bu i'r gwaith ar ystyriaethau radical ysbrydoli ymagwedd newydd o ran penderfynu sut i wario'r cyllid Ymhellach Ynghynt. Mae Ymhellach Ynghynt yn grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu capasiti mewn gofal cymunedol, yn canolbwyntio ar bobl hŷn gydag anghenion cymhleth i ddechrau.Mae nifer o bartneriaid gwahanol yn rhan o hynny, gan gynnwys gwahanol adrannau o'r gwasanaeth iechyd, gofal cymdeithasol, grwpiau cymunedol a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Fe wnaethom gasglu enghreifftiau o ddulliau radical o wario'n cyllid o ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial i nodi'r unigolion sydd yn wynebu'r perygl mwyaf o fod angen gofal mewn ysbyty i greu cymunedau o bobl sy'n gallu cefnogi ei gilydd. Roedd trafod yr hyn yr oedd pobl yn ei hoffi a ddim yn hoff ohono o ran pob un o'r syniadau hyn yn ffordd wych i bobl o wahanol sefydliadau ddeall ei gilydd yn well. Ac roedd yn gymorth i ganfod syniadau eraill o ran yr hyn a allai weithio'n dda yng Ngogledd Cymru. Mae'n ddyddiau cynnar, ond rydym yn gobeithio y bydd y ffordd newydd o weithio yn ein cynorthwyo i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd gennym i sicrhau iechyd a lles pobl yng Ngogledd Cymru.

Canolbwyntio ar blant a phobl ifanc

Rydym wedi parhau i gefnogi Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Plant, drwy gyfuno ymchwil, ystadegau a straeon plant a theuluoedd ym mhob un o'u meysydd blaenoriaeth.Bu i ni hefyd gynorthwyo i gynllunio digwyddiad cyd-gynhyrchu er mwyn i'r bwrdd osod eu gweledigaeth, cenhadaeth a blaenoriaethau.

Eleni bu i ni gyhoeddi canfyddiadau ein hymarfer canolbwyntio ar anabledd a salwch a chyflawni gwaith canolbwyntio ar niwroddatblygiad.

Rydym wedi sefydlu grŵp llywio bach a luniodd y cwestiynau o ran yr heriau y mae gwasanaethau niwroddatblygiadol yn eu hwynebu a'r ffyrdd gorau o gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Bu i ni ystyried ystod eang o dystiolaeth i geisio ateb y cwestiynau hyn a'i gyfuno mewn pecyn gwybodaeth 100 tudalen. Fe geisiom ei wneud yn gryno ond mae'r system yn hynod gymhleth, nid oedd modd ei wneud yn llai heb golli gwybodaeth allweddol. Fe wnaethom rannu'r pecyn gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant cyn y gweithdy, gan gynnwys straeon gan deuluoedd sy'n byw gyda niwroamrywiaeth.

I ddechrau'r gweithdy, fe wnaethom wylio fideo o deulu lleol yn sôn am eu profiadau o aros am asesiad niwroddatblygiad.

Archwiliodd y bwrdd gwestiynau o ran sut y gellid cydweithio'n well er mwyn rhoi cefnogaeth. Gall gymryd cryn dipyn o amser i gael asesiad i weld os oes gan blentyn neu unigolyn ifanc gyflwr niwroddatblygiadol. Un ffordd yr hoffent wella'r broses hon yw drwy gefnogi plant a theuluoedd yn seiliedig ar yr anghenion sydd ganddynt yn hytrach nag ar eu diagnosis. Mae gan y Bwrdd rôl o ran cydlynu a sicrhau ein bod yn dysgu gan ein gilydd am yr ystod eang o bethau sydd eisoes yn cael eu treialu ar draws y partneriaid i wella gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant i gynorthwyo i sicrhau bod y gwaith yn gwneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd yng Ngogledd Cymru.

Gwaith tîm yw ein pŵer arbennig!

Helo...

Sarah ydw i (Rheolwr Hwb CARh),
ac fe arweiniais y prosiect ymchwil i gefnogi Canolbwyntio ar Niwroddatblygiad, llunio grŵp llywio a chwmpasu'r gwaith. Lluniais ddrafft yr adroddiad a chrynhoi'r canfyddiadau allweddol.



Beccy (Llyfrgellydd Arbenigol) ydw i,
fe wnes i ymchwil ar ddiffiniadau niwroddatblygiad a chynnal chwiliadau llenyddiaeth yn seiliedig ar y cwestiynau gan y grŵp llywio.

Janine (Demograffydd) ydw i,
casglais ddata niwroddatblygiad a darparu dadansoddiad ystadegol.



Megan (Swyddog Gwerthuso Rhanbarthol) ydw i,
dyluniais a golygais yr adroddiad i'w gyhoeddi a darparu cefnogaeth i'r prosiect.

Natalie (Rheolwr Prosiect Gwerthuso ac Arloesi) ydw i,
fe wnes i ganfod cyfleoedd drwy rwydweithiau presennol i ddefnyddio'r pecyn yn dilyn ei gyhoeddi. Cynhaliwyd gweithdy Map Effaith ar gyfer y tîm er mwyn gwerthuso ac olrhain effaith y darn hwn o waith. Er enghraifft, newidiadau yn y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd fel tîm ac fel rhanbarth i wella'r canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd.

BPRh Plant



Hwb CARh

- Wedi cefnogi cydweithio drwy wella'r ddealltwriaeth rhwng y sectorau
- Darparu gwell cydlyniant o ran ymchwil ar draws Gogledd Cymru.
- Galluogi dylunio a darparu gwasanaethau'n seiliedig ar anghenion plant a phobl ifanc.
- Datblygu model ffocws plant Gofal Cymdeithasol Cymru sydd wedi'i nodi fel arfer orau.

Defnyddwyr RITA yng Ngogledd Cymru'n dod ynghyd

Bu defnyddwyr Gweithgareddau Therapi Rhyngweithiol Hel Atgofion (RITA) Gogledd Cymru yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 4 Gorffennaf 2023 yn Wrecsam. Caiff y dyfeisiau digidol 10" a sgriniau 24" eu defnyddio mewn lleoliadau gofal iechyd gan ofalwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac unigolion sy'n derbyn gofal.

Mae'r dechnoleg yn galluogi unigolion i gofio a rhannu digwyddiadau o'u gorffennol drwy wrando ar gerddoriaeth, gwylio ffilmiau, clipiau teledu, newyddion a delweddau o'r archif. Cefnogir gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gynnwys personol, llyfrau, collage a phasbort fy mywyd ac mae apiau i helpu gyda diagnosis, tynnu sylw a deliriwm.

Mae RITA wedi'i ddylunio i'w ddefnyddio gyda phobl hŷn gan gynnwys pobl gyda dementia, pobl gyda salwch meddwl, anableddau dysgu ac anafiadau dwys i'r ymennydd fel modd o ymgysylltu ag unigolion i leihau trallod, arwahanrwydd a deliriwm.

Daeth staff Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, nyrsys, therapyddion galwedigaethol, gofalwyr, rheolwyr cartrefi gofal a Chlwb Pêl-droed Wrecsam i rannu eu profiadau a'u gwybodaeth ac i glywed am y datblygiadau o ran y dechnoleg ddiweddaraf.

Cafodd staff y dewis o fynychu ar-lein neu wyneb yn wyneb. Gwerthwyd pob tocyn ar gyfer y digwyddiad a daeth â'r staff gyda sgiliau a phrofiadau gwahanol ynghyd a bu pobl yn rhannu eu gwybodaeth.

- Bu i Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol drefnu ymweliadau i gartrefi gofal preswyl i adolygu'r defnydd o RITA gyda'r preswylwyr.
- Bu i ddefnyddwyr preswyl RITA wahodd staff o leoliadau eraill i ymweld â nhw i weld sut maent yn defnyddio RITA yn eu hymarfer.
- Trefnwyd sgwrs gan Gydlynydd Dementia sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam i drafod RITA gyda myfyrwyr Therapi Galwedigaethol.Nodwyd bod eu lleoliadau gwaith yn ddull allweddol o gefnogi'r defnydd o RITA ar draws y sefydliadau iechyd a gofal.

Digwyddiad Dweud Straeon

> “Educating the mind without educating the heart is no education at all.”
>
> Aristotle

Fe wnaethom weithio gyda’r prosiect Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) i drefnu digwyddiad ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Tachwedd 2023 i ddysgu mwy am adrodd straeon a rhannu eu gwybodaeth a’u profiadau.Ariannwyd y digwyddiad gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru.

Rhannwyd amrywiaeth o straeon yn ystod y dydd, gan arddangos sut mae straeon yn datblygu ein dealltwriaeth o gymhlethdod pobl, a pha mor bwerus all straeon fod ar gyfer newid ffyrdd o feddwl, a chymell ac ysbrydoli ein hunain ac eraill.

I gael rhagor o wybodaeth gweler ein blog am y digwyddiad adrodd straeon.

Rhwydwaith Arloesi Iechyd a Gofal Gogledd Cymru

Rydym wedi parhau i ddatblygu Rhwydwaith Arloesi Gogledd Cymru eleni gan gynnwys gweithdy wedi'i ddylunio i archwilio gwahanol safbwyntiau aelodau'r grŵp i'n cynorthwyo i weithio'n well gyda'n gilydd. Dyma beth oedd ganddynt i'w ddweud wrthym.

- Mae arloesi'n golygu pethau gwahanol i wahanol bobl, yr iaith yr ydym yn ei defnyddio, ac mae ein hymagweddau'n wahanol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae perthnasoedd yn werthfawr; mae prosiectau newydd a chyfleoedd am gyllid yn cael eu creu drwy sgyrsiau gyda phartneriaid.
- Mae'r gair arloesi yn denu pobl fusnes a thechnoleg, nid staff iechyd a gofal na phobl Gogledd Cymru.Felly, mae'n hanfodol ein bod yn eglur o ran y buddion. Er enghraifft, digwyddiad am Ddeallusrwydd Artiffisial 'Sut y gall Deallusrwydd Artiffisial gynorthwyo i arbed amser ac arian mewn gofal cymdeithasol' neu 'Ydych chi'n ofalwr di-dâl? Sut y gall technoleg roi cyfle i chi a'ch anwyliaid dreulio ychydig o amser ar wahân'.

Dyma gyfieithiad o ddyfyniad gan un o aelodau'r rhwydwaith am y gefnogaeth yr ydym wedi'i darparu.

"Mae Rheolwr Prosiect Hwb CARh wedi fy rhoi mewn cysylltiad â budd-ddeiliaid defnyddiol ym maes gofal cymdeithasol a'r ecosystem ehangach ac wedi arwain Rhwydwaith Arloesi Gogledd Cymru.Fe ddarparodd weithdy arloesi defnyddiol i'r rhwydwaith ac roedd yn llawn gwybodaeth ac wedi'i hwyluso'n dda.Roeddwn yn awyddus i lunio rhwydwaith o arbenigwyr arloesi lleol ar draws Gogledd Cymru felly diolch am arwain hyn a'i wneud yn realiti, fe fydd buddion cadarnhaol iawn o ystyried y gefnogaeth rhyng-sector. Mae'r gefnogaeth yn cynnig sawl mantais, yn meithrin cydweithio, rhannu gwybodaeth a mynediad at adnoddau sy'n cymell arloesi, gwella prosesau a chyflawni nodau yn fwy effeithiol. Diolch yn fawr."

Aelod o'r Rhwydwaith Arloesi.

Canfod beth sy'n gweithio

Gwerthusiad

Er mwyn helpu i nodi arloesedd gyda'r potensial i gynyddu a lledaenu, mae hwb CARh wedi bod yn cefnogi gwerthusiad o raglen gwerth £44 miliwn Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru. Rydym yn defnyddio cymysgedd o ffigyrau a chasglu straeon i wneud yn siŵr nad ydym yn methu unrhyw newidiadau pwysig am eu bod yn anodd eu cyfrif. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar ddylunio'r gwerthusiad a chefnogi prosiectau i wella ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu.

Rydym wedi hwyluso cyd-ddyluniad a chynllunio gwerthusiad o Fframwaith Gwydnwch Lles ac Iechyd Emosiynol ar gyfer unigolion 0- 25 oed gan ddefnyddio'r paneli dethol straeon Newid Mwyaf Arwyddocaol.

Rydym hefyd yn rhan o grŵp llywio prosiect 100 o straeon gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Phrifysgol Wrecsam, gan gefnogi i recriwtio unigolion gydag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol i gyd-gynhyrchu prosiect i ddysgu o straeon pobl ifanc a'u teuluoedd o ran pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Mae stori Janet yn enghraifft o'r math o straeon rydym yn eu casglu a'u dadansoddi i ganfod beth sy'n gweithio ac i wella canlyniadau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal. Mae'n dangos sut y mae rhaglen hyfforddiant unigryw wedi'i ariannu gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol wedi cynorthwyo rhiant plentyn gydag anawsterau dysgu a niwroddatblygiadol.

Stori Janet

Mae'r enwau a'r manylion eraill yn y stori wedi'u newid i ddiogelu preifatrwydd y teulu.

Mae gennyf 3 o blant, Andrew sy'n 10 oed, Dafydd yn 7 oed a Bethan sy'n 12 oed. Maent yn blant cariadus, deallus a doniol.
Cafodd y bechgyn ddiagnosis o oedi datblygiadol byd-eang ac awtistiaeth pan oeddent oddeutu 3 oed, mae eu personoliaeth a'u hanghenion yn wahanol. Maent angen goruchwyliaeth un i un a chefnogaeth 24/7. Mae Andrew yn hynod o gryf ac felly mae ei gyfnodau o golli rheolaeth yn anodd eu rheoli pan nad yw'n cael yr hyn y mae ei eisiau. Rwy'n gleisiau i gyd yn aml. Mae Dafydd yn colli rheolaeth hefyd, fe fydd yn anafu ei hunan, gan daro ei ben yn erbyn y wal. Neu fe fydd yn neidio a glanio ar ei ben-gliniau. Mae'r cyfnodau hyn yn gallu bod yn frawychus.

Hyfforddiant Parch Unigryw

Ers yr hyfforddiant mae fy mherthynas gyda'r bechgyn wedi gwella'n sylweddol, rwy'n teimlo bod gennyf fwy o reolaeth. Datblygodd yr hyfforddwr astudiaeth achos, a bu i ni drafod yr ymddygiad yr wyf wedi'i weld gan fy mhlant. Yr heriau dyddiol, sut rwyf wedi rheoli eu hymddygiad a beth ddigwyddodd nesaf.

Cyn yr hyfforddiant, pan fyddai'r bechgyn yn colli rheolaeth roeddwn eu hofn, roeddwn yn cael niwed ac roedd pobl eraill yn cael eu brifo. Nid oeddwn yn gwybod sut i gynghori staff cefnogi o ran sut i'w cynorthwyo'n ddiogel.

Rwyf yn awr yn deall pam eu bod yn colli rheolaeth a beth sy'n digwydd i'r bechgyn. Rwyf yn awr yn canolbwyntio ar eu hatal yn gyfan gwbl. Weithiau byddant yn teimlo'n euog ar ôl colli rheolaeth ond nid ydynt yn prosesu pethau yn yr un modd â mi, felly gallant brofi cyfnod o iselder wedi hynny. Mae eu cyfnodau o golli rheolaeth yn effeithio ar fy lles corfforol a meddyliol.

Atal cyfnodau o golli rheolaeth

Rwan, rwy'n cyfathrebu'n well gyda'r bechgyn ac yn tynnu eu sylw sy'n gallu eu hatal rhag colli rheolaeth ar adegau.Cyn yr hyfforddiant ni fyddwn yn ildio iddynt a byddent yn colli rheolaeth, nawr rwy'n gwybod nad wyf yn eu gwobrwyo drwy roi rhywbeth iddynt, rwy'n eu hatal rhag cael niwed.

Ein diogelu rhag niwed

Pan fyddant yn colli rheolaeth, rwy'n gwybod sut i ddefnyddio pwysau fy nghorff i'w cadw rhag perygl a thechnegau gafael ysgafn, er enghraifft eu dal o dan y fraich i'n cadw'n ddiogel.

Rwyf wedi treulio rhan fwyaf o'm bywyd yn teimlo fel goruchwyliwr nid fel mam, roeddwn yn rheoli risg yn barhaus.Mae fy nghysylltiad gyda'r bechgyn wedi gwella'n sylweddol. Rwy'n gwybod eu bod fy angen ac rwy'n dda iddynt. Mae ganddynt hyder ynof fy mod yn ddiogel ac y gallant ddod ata i. Nawr mae'r staff yn fy ngwylio yn ymdrin â sefyllfaoedd ac yn gofyn 'sut wnaethoch chi wneud hynny'. Maent yn gweld bod y bechgyn yn gwrando arnaf ac yn dangos mwy o barch ataf.

Rho'r bêl yn ôl i fi!

Heddiw, fe alwodd y staff cefnogi arnaf, roedd Dafydd yn rhedeg i'r drws, yn cicio'r ffenestri Ffrengig, yn taflu pethau. Doedden nhw ddim yn gwybod beth oedd yn bod arno.

Fe es ato'n dawel, plygu i lawr ato ac edrych i'w lygaid a dweud 'dangos i mi', fe aeth â mi lawr i'r ardd a phwyntio at y ffens, roedd wedi taflu'r bêl drosodd ac eisiau'r bêl yn ôl. Roeddwn yn teimlo'n hyderus gyda'r sgiliau yr oeddwn wedi'u dysgu, roedd ganddo hyder ynof, a bu i ni osgoi colli rheolaeth.

Chwiliadau llenyddiaeth

Mae ein llyfrgellydd arbenigol yn cynnal chwiliadau i ganfod pa waith ymchwil sydd eisoes wedi'i gyflawni ar y pwnc, neu enghreifftiau o arferion gorau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 40 o chwiliadau llenyddiaeth a chynhyrchu 7 crynodeb o dystiolaeth gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, ceiswyr lloches ar eu pen eu hunain, moeseg / canllawiau Deallusrwydd Artiffisial, Deallusrwydd Artiffisial er mwyn gwneud penderfyniadau, Deallusrwydd Artiffisial i fonitro, wardiau rhithwir, cofnodion gofal integredig, cyd-gynhyrchu gyda phlant, ymyraethau cyn geni, ymyraethau ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth, perthynas y teulu'n chwalu (cyfraddau ar gyfer rhieni plant gydag anghenion cymhleth, cefnogaeth, a mwy o ofal preswyl), awtistiaeth ac ADHD (rhestrau aros, diagnosis, cefnogaeth, demograffeg, bwlio, trawma a gwaharddiadau o'r ysgol), diffiniadau niwroamrywiaeth, modelau gofal cymdeithasol arloesol, pecyn gwaith ffioedd cartrefi gofal, a fframweithiau canlyniadau y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cyhoeddwyd rhai o'r rhain fel rhan o waith canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.

Os ydych chi'n gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar brosiectau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng Ngogledd Cymru, ac yr hoffech chi wneud cais am chwiliad, cysylltwch â'n Llyfrgellydd Arbenigol.

Ein heffaith

Rydym yn aml yn gweithio gyda phrosiectau yn y camau cynnar i helpu i weithredu syniadau arloesol. Gall hyn gynnwys gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol brosiectau, cynnal rhywfaint o waith ymchwil cychwynnol i gynorthwyo i ddeall problem yn well neu nodi beth sy'n gweithio'n dda mewn ardaloedd eraill. I ddysgu mwy am effaith y gwaith, anfonwyd arolwg at ddetholiad o bobl a gefnogwyd gyda darnau sylweddol o waith i ddarganfod beth sydd wedi digwydd ers hynny. Roedd y gyfradd ymateb i arolwg o'r fath yn galonogol gyda dros 65% yn ymateb. Diolch yn fawr iawn i bawb a roddodd o'u hamser i roi adborth i ni. Mae Siart 1 yn crynhoi buddion mwyaf cyffredin o'n cefnogaeth gan gynnwys gwella ansawdd, arbed amser, a nodi a chymell syniadau neu arloesi. Dros yr ychydig dudalennau nesaf rydym wedi cynnwys sylwadau sy'n dangos y math o effaith y mae ein gwaith yn ei gael.

Siart 1: Buddion cefnogaeth gan dîm hwb CARh



Dyma ddetholiad o ddyfyniadau o'r arolwg am yr effaith a gawsom eleni.

Cefnogaeth i werthuso

"Rwyf wedi derbyn cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr gan Hwb CARh wrth sefydlu rhaglen Arloesi CAMHS, nawr bod y rhaglen ar waith mae'r Swyddog Gwerthuso yn darparu cefnogaeth ac arweiniad arbenigol i'r timau prosiect i'w galluogi i gael mynediad at, a gwneud defnydd da o'r teclynnau gwella."

"Mae'r gwaith gwerthuso gan Hwb CARh wedi cefnogi'r penderfyniad mewn perthynas â chysondeb, terfynu neu newid cwmpas prosiectau RIF er mwyn darparu gwerth am arian a bod yn fwy effeithiol."

"Bydd y gefnogaeth yn fy ngalluogi i werthuso'r gwaith rwyf yn ei wneud. Mae hyn yn allweddol gan y bydd (gobeithio) yn dangos yr angen ac yn ei dro ariannu parhaus. Bydd yr elfen o adlewyrchu yn sicrhau bod datblygiad parhaus gyda'r gallu i addasu i gyflawni'n canlyniad gorau posibl... Mae'r help rwyf wedi'i dderbyn wedi sicrhau fy mod yn cofnodi'r hyn sydd ei angen, yn arbed amser ac yn darparu canolbwynt."

"Rydym wedi trafod y ffordd orau o werthuso fy ngwaith ac rwy'n derbyn cyngor o ran sut i wneud hyn.... Drwy brofi bod fy rôl yn cael effaith h.y. yn rhoi llais i bobl sy'n byw gyda dementia, a bydd hynny'n cyfrannu at eu hyder a'u lles. Bydd hyn yn ei dro o fudd i'r gofalwyr."

"O ganlyniad i'r help rwyf wedi'i dderbyn o ran cyngor gwerthuso, cyngor cyd-gynhyrchu a chasglu data, dadansoddi a chyflwyno. Mae adroddiadau ymgyrchoedd gwrando unigol wedi'u dyfeisio ar gyfer pob awdurdod lleol, chwech ohonynt i gyd. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynorthwyo pob ardal i gytuno ar y MATERION PWYSIG yn eu cymuned."

"Roedd modd i mi werthuso'r cwrs yn briodol a derbyn yr adroddiadau gwerthuso'n brydlon.... Gwasanaeth wedi'i symleiddio ac yn gallu gweithio heb bapur. Roedd yn arbed amser o ran gosod a gwerthuso'r wybodaeth ac roedd yn rhoi cyfle i'r cynrychiolwyr gwblhau'r arolwg yn eu hamser eu hunain."



Hyrwyddo syniadau arloesol

"Mae hyrwyddo'r gwaith drwy'r cyfryngau cymdeithasol wedi'n galluogi i ledaenu newyddion am y gwaith arbennig sy'n cael ei wneud ar hyd y rhanbarth...Arwain y blaen wrth fynd â'n partneriaid ac aelodau o wahanol fyrddau gyda ni ar daith yn dangos pa mor bwerus yw adrodd straeon wrth wneud penderfyniadau sy'n trawsnewid bywydau unigolion ar hyd Gogledd Cymru."

"Mae'r blog a'r gwaith Cysylltiadau Cyhoeddus gan Hwb CARh yn gymorth i gynyddu'r ymwybyddiaeth a'r mynediad at wasanaethau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr a phobl sy'n byw gydag awtistiaeth a'u gofalwyr."

Gwella cyfathrebu a chyfranogiad

"Mae'r dulliau ansoddol ac ysgrifennu straeon wedi helpu pobl sy'n byw gyda dementia i adrodd eu stori gyda sgript penodol, er mwyn ei ddefnyddio fel cymorth cof wrth ddarparu cyflwyniadau."

"Mae'r Papur Cefndir wedi'i lunio mewn fformat hygyrch, gyda'r defnydd o Gymraeg Clir lle bo modd.Bydd hyn yn golygu bod mwy o bobl yn debygol o ddarllen a deall y materion a godwyd yn y Papur Cefndir, gan alluogi mwy o gyfranogiad gan y gymuned o ran proses paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)."

"Mae derbyn cefnogaeth Hwb CARh.... wedi cael effaith sylweddol ar y dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu, gan sicrhau bod pob dogfen yn hygyrch. Cyflwynwyd y dogfennau terfynol mewn fformat hawdd ei lywio ac roedd edrychiad terfynol y ddogfen yn fwy apelgar i'r darllenydd."

Effaith data ac ystadegau

"Wedi cyfrannu at gynhyrchu Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer darpariaeth hwb integredig yn Wrecsam a chynorthwyo i ystyried yn strategol o ran sut y gall Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau cynnig cyson i'r boblogaeth yn y rhanbarth dwyreiniol. [Fe fydd] yn gwella canlyniadau ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ynghyd â darparu cyfle i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd o dan bwysau wrth i anghenion y boblogaeth gynyddu a chymhlethu ac wrth i'r pwysau o ran gosod cyllideb gynyddu hefyd."

"Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi ein cynorthwyo i ddatblygu dogfennau strategol allweddol.Bydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Er enghraifft, gall y wybodaeth o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth hysbysu cyfran gymesur o gyllid ar draws y mathau o gleientiaid... Yn syml, mae eich adroddiadau'n darparu gwybodaeth sy'n hynod ddefnyddiol i ni. Diolch yn fawr."

"Bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sylfaen dystiolaeth gadarn ac wedi'i diweddaru o ran anghenion tai yn yr ardal leol. Mae galw sylweddol am dai fforddiadwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy, gyda nifer o aelwydydd ar y cofrestrau tai fforddiadwy. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddaru, sy'n cael ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, yn golygu y gall yr awdurdod lleol lunio cynlluniau gwell o ran sut i ddiwallu'r galw."

"Mae'r CDLl Newydd [Cynllun Datblygu Lleol] yn darparu cynllun 15 mlynedd ar gyfer darparu tai newydd, tir cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol. Mae'r sylfaen dystiolaeth gadarn y mae'r holl waith yn cyfrannu ato yn golygu y bydd y cynllun yn ei le yn gynt. Bydd yn darparu sicrwydd er mwyn datblygu tai newydd, cyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau manwerthu a chymunedol. Mae'r CDLl Newydd yn broses hir ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Ni fydd yr effaith lawn ar gyfer y preswylwyr i'w weld eto."

"Gwella ansawdd adroddiadau a derbyn mewnwelediad o'r data a'r ystadegau presennol ar gyfer gwaith yn y dyfodol ym maes anableddau dysgu."

"Mae casglu data a chreu dangosfwrdd gan Hwb CARh o ran safonau dementia a Chod Ymarfer Awtistiaeth wedi'n galluogi i sefydlu gwaelodlin, ychwanegu data i greu darlun llawn a monitro cynnydd yn erbyn y safonau a'r codau ar draws yr holl bartneriaid ar sail ranbarthol."

Dyma ddetholiad o'r straeon yn dangos yr effaith yr ydym wedi'i gael.

Cyfle Perffaith

"Bu i Hwb CARh ysgrifennu a chyhoeddi blog yn cofnodi proses y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i brynu cathod a chŵn dementia . Roedd yr erthygl yn nodi'r adborth gan awdurdodau lleol o ran effaith y rhain ar unigolion sy'n byw gyda dementia. Rhannwyd y blog ar draws Gogledd Cymru gan gynnwys ar dudalennau Twitter y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Hwb CARh. Bu i ymchwilwyr ym Mhrifysgol Wrecsam weld y blog a chysylltu er mwyn cydweithio ar ymchwil i effaith yr anifeiliaid anwes robot ar y rhai sy'n byw gyda dementia. Bydd hyn yn sicrhau gwerthusiad cadarn, a allai ddangos buddion ac effaith anifeiliaid anwes robot mewn perthynas â gwella hwyliau, annog cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol, a chwmnïaeth."

"Ni fyddai'r cyfle i weithio gyda Phrifysgol Wrecsam wedi codi pe na bai'r blog wedi'i gyhoeddi ac felly, rydym yn ddiolchgar iawn i HWB CARh am eu cefnogaeth."

O amser a thasg i fywydau mor llawn â phosibl

Un diwrnod ym mis Medi, yn un o gyfarfodydd y gweithgor arloesi, roeddem yn trafod sut i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddarparu gofal cymdeithasol gwell. Nododd rhywun eu bod wedi newid sut y darperir gofal cartref yng Ngwynedd i symud ymlaen o fodel amser a thasg lle y darperir gwasanaethau mewn cyfnodau amser byr a chanolbwyntio ar gwblhau tasgau gofal personol penodol, i un yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion sy'n derbyn cefnogaeth. Ond roedd eu system TG yn eu rhwystro.

Y diwrnod cyn i ni gyfarfod, roeddem wedi bod yn trafod gyda thîm SBRI a nododd eu bod am lansio cynllun cyllid ar gyfer arloesi i wella gofal cartref yn fuan. Roedd hyn yn swnio fel y math o brosiect yr oedd SBRI yn chwilio amdano -gallem wneud cais am y cyllid a gweithio gyda darparwr TG i greu system sy'n cefnogi eu ffordd newydd o weithio.

Pan gyhoeddwyd bod y cyllid ar gael, anfonwyd y wybodaeth at yr unigolion priodol a mynychwyd cyfarfodydd briffio er mwyn cynghori beth y dylid ei gynnwys. Arweiniodd hyn at gais llwyddiannus o £200,000 i brofi model darparu gofal cartref modern a newydd yn Nhorfaen, Gwynedd a Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth system TG pwrpasol. Dylai hyn gynorthwyo i wella ac uno gwasanaethau ar gyfer pobl a rhoi mwy o lais iddynt o ran sut a phryd y darperir eu gofal.

‘Gwnewch y pethau bychain’: arloesi ar raddfa fechan

Fel tîm gyda phrofiad o ymchwil, arloesi a gwella, rydym wedi datblygu sgiliau defnyddiol dros y blynyddoedd ac yn aml gofynnir i ni gynorthwyo i ddatrys problemau ar raddfa fechan wrth iddynt godi mewn gwaith rhanbarthol. Ni fydd y rhain yn newid y byd ar eu pennau eu hunain, ond maent yn ein cynorthwyo i weithio’n fwy effeithlon er mwyn treulio mwy o amser ar y pethau pwysig. Mae’r rhain oll ar gael fel templed ar gyfer rhanbarthau eraill hefyd.

- **Cod Ymarfer Awtistiaeth.** Mae’n rhaid i bob rhanbarth adrodd ar eu cynnydd yn erbyn oddeutu 50 datganiad o ran beth yw gwasanaethau awtistiaeth da. Gyda chwe awdurdod lleol ac un bwrdd iechyd yn adrodd ar gynnydd, gan gynnwys gwasanaethau oedolion a phlant, mae hynny’n golygu llwyth o wybodaeth. Rydym wedi llunio dangosfwrdd yn Excel sy’n galluogi’r tîm rhanbarthol i weld cynnydd pob sefydliad, monitro cynnydd cyffredinol ar gyfer y rhanbarth a thynnu sylw at feysydd sydd angen mwy o waith.

- **Ymgyrch Gwrando ar Ddementia.** Mae ein cydweithwyr sy'n gweithio ar ymgyrch gwrando ar ddementia wedi gofyn am ein cyngor o ran y ffordd orau o gasglu safbwyntiau pobl. Aethant allan i chwe thref yng Ngogledd Cymru i sgwrsio â phobl a oedd yn mynychu gwyliau a chlybiau cymdeithasol a phobl mewn archfarchnadoedd lleol. Gosodwyd ffurflen ar-lein er mwyn iddynt deipio'r hyn yr oedd pobl yn ei ddweud wrthynt a rhannu dolen a chod QR er mwyn i aelodau o'r cyhoedd gysylltu â ni'n uniongyrchol. Roedd darllen a dadansoddi'r cannoedd o ymatebion meddylgar yn fraint ac rydym yn argymell darllen yr adroddiadau yn ein cronfa ddata ymgysylltu.

- **Dulliau newydd o gyfrifo pa mor gyffredin yw'r cyflyrau sydd angen gwasanaethau gofal ac iechyd.** Gan fod gennym ddemograffydd yn y tîm yn awr, mae modd dadansoddi nodweddion poblogaeth o fewn ardal a defnyddio hyn i fodelu tebygolrwydd cyflyrau fel dementia neu awtistiaeth neu anableddau dysgu yn y boblogaeth. Gallwn wneud hyn ar lefel ardal awdurdod lleol neu ar lefel ardaloedd llai y gellir eu llunio o ddaearyddiaeth ystadegol ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (ar gyfer clystyrau gofal iechyd sylfaenol er enghraifft). Mae byrddau iechyd lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dangos diddordeb mewn defnyddio'r fethodoleg hon.

- **Cyngor ac awgrymiadau astudiaethau achos.** Fel rhan o'n gwaith o werthuso'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol, bu i ni gyflwyno sesiynau cyngor ac awgrymiadau i gynorthwyo prosiectau a ariennir gan y Gronfa i greu astudiaethau achos sy'n fwy trylwyr er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith gwerthuso.Mae'r gwaith hwn tu ôl i'r llen yn rhan allweddol o gael tystiolaeth dda i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella.

Pwysigrwydd y niferoedd

Rydym yn cynhyrchu diweddariadau rheolaidd i'r asesiad o anghenion y boblogaeth, sy'n nodi faint o bobl sydd angen gwahanol fathau o ofal a chefnogaeth.

Y wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd

- Proffiliau ardal newydd ar gyfer clystyrau gofal sylfaenol.
- Diweddaru proffiliau ardal ar gyfer ardaloedd awdurdodau unedol ac ardaloedd iechyd lleol.
- Ystadegau am ddangosyddion allweddol iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru.
- Amcangyfrif o ba mor gyffredin yw dementia yng Ngogledd Cymru.
- Ystadegau am gyflyrau niwroddatblygiadol mewn plant a phobl ifanc.
- Crynodebau o nodweddion gwarchodedig o Gyfrifiad 2021, i gefnogi asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a gwaith gwerthuso arall.

Ateb ymholiadau data o ran effaith twristiaeth ar ofal sylfaenol, costau hyfforddi staff ar gyfer darparwyr gofal cartref, cyflyrau niwroddatblygiadol, pobl gydag anableddau cymhleth, nodweddion gwarchodedig, anghenion tai fforddiadwy, anableddau dysgu a phontio a data poblogaeth ac economaidd-gymdeithasol arall, gan gynnwys cefnogi Cynlluniau Datblygu Lleol, Asesiadau'r Farchnad Dai Leol ac Asesiadau Lles ar gyfer partneriaid llywodraeth leol. Cefnogi adolygiad Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a darparu data ar gyfer strategaeth ddrafft comisiynu cartrefi gofal.

Parhau i gynhyrchu dadansoddiad o ddata o Gyfrifiad 2021 a monitro'r ail-sylfaen ddeilliannol o ddata a dangosyddion economaidd-gymdeithasol eraill.Cynrychioli Gogledd Cymru a'r agenda cydweithio iechyd a gofal cymdeithasol ehangach fel defnyddwyr arbenigol ar weithgor rhagamcanion is-genedlaethol Llywodraeth Cymru, panel sicrwydd ansawdd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Pwyllgor Cyswllt Ystadegau Cymru, Grŵp Gwybodaeth Tai; a phartneriaeth Wybodaeth Llywodraeth Ganolog a Lleol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer ystadegau poblogaeth a Grŵp Ymgynghorol Cyfrifiad Cymru.

Wedi cyflwyno canfyddiadau allweddol o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yng nghyfarfodydd Clwstwr Gofal Sylfaenol Conwy a Sir Ddinbych. Roedd hyn yn gymorth i rannu pwysigrwydd gwasanaethau iechyd hygyrch i bobl gydag anghenion gofal a chefnogaeth, fel Cymunedau sy'n deall Dementia a Gwiriadau Iechyd ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

Wedi dod yn gynrychiolydd Gogledd Cymru a chymuned ehangach y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar grwpiau budd-ddeiliaid Cyfrifiad Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc, Grŵp Gwybodaeth Fusnes Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid Strategaeth Ddata Gofal Cymdeithasol. Darparu adborth defnyddiwr arbenigol ar brosiectau ail gomisiynu / ail ddylunio ar gyfer storfa ddata StatsCymru a phorth data Gofal Cymdeithasol Cymru. Cyflwyno ymateb manwl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i ymgynghoriad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar Ystadegau y Boblogaeth a Mudo yn y Dyfodol.

Ewch i weld y tudalennau ystadegau ac ymchwil ar wefan y Gydweithredfa Ranbarthol.

Yng Ngogledd Cymru:

Gwynedd sydd â'r gyfran isaf o ofalwyr di-dâl ar (8.9%)

Cyfartaledd Gogledd Cymru yw 10.2%. Mae'n debyg bod y gyfran yng Ngwynedd yn isel oherwydd effaith Prifysgol Bangor - mae gan fyfyrwyr oddi cartref lai o gyfrifoldebau teuluol. Mae mwy na thraean o ofalwyr di-dâl yng Ngogledd Cymru (23,000 o bobl) yn rhoi 50 awr neu fwy o ofal di-dâl bob wythnos..

Ynys Môn sydd â'r gyfran uchaf o Gristnogion (51.1%)

Mae ychydig dan hanner y bobl yng Ngogledd Cymru yn ystyried eu hunain yn Gristnogion. Nid oes gan 42% unrhyw grefydd, ac mae gan lai na 2% o bobl grefydd heblaw Cristnogaeth. Ni atebodd y 7% arall y cwestiwn hwn.

Wrecsam sydd â'r gyfran uchaf o bobl o gefndir ethnig cymysg neu luosog (1.2%)

Nid yw Gogledd Cymru yn amrywiol iawn o ran ethnigrwydd. Mae 97% o breswylwyr Gogledd Cymru yn ystyried eu hunain yn Wyn. Mae hyn yn cymharu ag 82% Gwyn ledled Cymru a Lloegr yn gyffredinol. Roedd 1.1% o bobl yng Ngogledd Cymru o gefndir amlethnig neu gymysg, roedd 1.4% yn Asiaidd, 0.3% yn Ddu a 0.4% yn hunaniaeth arall.

Sir y Fflint sydd â'r gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg (11.6%)

Ar y cyfan, mae gan Ogledd Cymru gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn ei boblogaeth na chyfartaledd Cymru (29% yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â 18% yn genedlaethol). Fodd bynnag, mae llawer iawn o amrywiaeth, ac mae cyfran siaradwyr y Gymraeg yn gyffredinol yn cynyddu y pellaf i'r gorllewin a'r de yr ewch chi.

Conwy sydd â'r gyfran uchaf o gyn-filwyr y lluoedd arfog (5.9%)

Roedd tua 29,000 o gyn-filwyr y lluoedd arfog yng Ngogledd Cymru ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Roedd hyn yn 5.1% o'r holl bobl 16 oed a hŷn. Roedd tua hanner yr holl gyn-filwyr dros 65 oed – a bydd cyfran sylweddol ohonyn nhw'n gyn-filwyr gan eu bod nhw wedi ymgymryd â Gwasanaeth Cenedlaethol gorfodol yn y 1940au a'r 1950au.

Sir Ddinbych sydd â'r gyfran uchaf o bobl anabl (23.3%)

Roedd tua 142,250 o drigolion Gogledd Cymru yn cael eu hystyried yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Roedd gweithgareddau o ddydd i ddydd tua 64,850 o bobl wedi'u cyfyngu ychydig ac yr oedd gweithgareddau o ddydd i ddydd 77,400 wedi'u cyfyngu'n fawr. Roedd hyn yn 21% o'r holl bobl i gyd. Roedd gan 7% arall o bobl (45,200) gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor ond nid oedd gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu.



Arloesi: Digidol, data a thechnoleg

Ein cyflawniadau eleni drwy Fwrdd Digidol, Data a Thechnoleg Gogledd Cymru.

Blaenoriaeth 1: Cael y pethau sylfaenol yn iawn - mynediad llyfn a diogel at systemau a gwybodaeth ar unrhyw adeg, o unrhyw le.

Mae'r chwe awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd wedi cytuno i weithredu'r gallu i rannu calendrau a defnyddio'r swyddogaeth negeseuon gwib ar Microsoft Teams. Byddai hyn yn galluogi timau iechyd a gofal i drefnu cyfarfodydd a chyfathrebu'n fwy effeithiol, gan leihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn mewngofnodi i wahanol systemau neu leihau nifer yr e-byst a galwadau ffôn i drefnu cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol. Y canolbwynt ar gyfer y flwyddyn nesaf yw datrysiadau eraill i sicrhau nad yw TG yn rhwystr ar gyfer timau integredig er mwyn gallu gweithio gyda'n gilydd.



Blaenoriaeth 2: Arloesi. Dull gweithredu cysylltiedig o ran arloesi digidol. Gwneud y defnydd gorau o arian.

Mae effaith y ffrwd waith yn dechrau dod i'r amlwg yng nghais llwyddiannus SBRI (gweler O amser a thasg i fyw bywydau llawn i gael rhagor o wybodaeth).

- **Grŵp Technolegau Cynorthwyol Gofal Cymdeithasol.** Wedi cynnal y cyfarfod cyntaf fis Ionawr 2024. Wedi'i gyd-ddylunio gan MSparc ym Mhrifysgol Bangor, TG Cyngor Conwy a rheolwr gofal cymdeithasol. Mae'n ofod anffurfiol i gwmnïau technoleg a staff ddod ynghyd heb geisio gwerthu rhywbeth.
- **Cyfeiriadur arloesi.** Cyhoeddodd y Gweithgor Arloesi alwad arloesedd i gael gwybodaeth am ddata, digidol a thechnolegau newydd yn yr Haf 2023. Mae Cyfeiriadur Arloesi ar gael yn awr ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gyda'r technolegau sy'n cael eu defnyddio ledled Gogledd Cymru. Mae dros 80 o wahanol brosiectau ar y rhestr.
- **Digwyddiad Arddangos Arloesedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.** Nododd y Gweithgor Arloesi bod technolegau rhad, hawdd eu defnyddio o ran teleiechyd a theleofal ar gael ar y farchnad i gefnogi lles ac annibyniaeth a gofal yn nes at y cartref.Efallai nad yw pobl yn ymwybodol ohonynt, nac yn gwybod a fyddent yn diwallu eu hanghenion. Maent yn archwilio'r syniad o ddigwyddiad arddangos lle y gall pobl ddysgu, profi a phrynu technolegau i gefnogi eu lles neu les yr unigolion y maent yn eu cefnogi.

Blaenoriaeth 3: Cynhwysiant Digidol - Dull gweithredu cysylltiedig o ran cysylltedd cymunedol, galluogi a chofrestru

- Wedi cynnal 2 grŵp ffocws yn yr Hydref 2023 ar gyfer dinasyddion a'r gweithlu i gwmpasu gwaith cynhwysiant digidol.
- Ym mis Rhagfyr 2023 cyhoeddwyd y byddai cyllid ar gyfer Rhaglen Gynhwysiant Digidol Gogledd Cymru (yn cael ei ddarparu drwy Gymunedau Digidol Cymru a Chwmpas) yn cael ei leihau o 50%. Rhoddwyd cynlluniau ar waith i ad-drefnu'r gwaith. Cytunwyd ym mis Mawrth y dylid ailgyflwyno'r cyllid ac mae canolbwynt newydd ar gyfer Rhaglen Cymunedau Digidol Cymru.
- Mae'r bwrdd iechyd wedi dechrau rhaglen ymchwil ar gyfer cynhwysiant digidol ac allgau digidol a'i effaith ar iechyd a gofal iechyd yng Ngogledd Cymru.

Blaenoriaeth 4: Cofnodion ac atgyfeiriadau iechyd a gofal a data integredig - staff iechyd a gofal yn gallu edrych ar gyfuniad o gofnod iechyd a gofal unigolyn. Dull gweithredu ar y cyd o ran data.

Y prif ganolbwynt yw Cysylltu Gofal (Rhaglen WCCIS). Dengys ymchwil y farchnad nad oes un system a fyddai'n gweithio ar gyfer yr holl adrannau gwahanol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, felly gwnaed penderfyniad i brynu'r system orau ar gyfer pob maes gwasanaeth a'u hintegreiddio. Eleni rydym wedi canolbwyntio ar baratoi i gaffael y systemau hyn a sicrhau eu bod yn cynnwys y dewis i integreiddio gyda'i gilydd yn ddiweddarach. Mae Cyfarwyddwyr ac arweinwyr systemau Gogledd Cymru yn cwrdd yn rheolaidd i baratoi ar gyfer caffael ac i wneud penderfyniadau o ran ymagwedd Gogledd Cymru.

Yn gyffredinol

Mae Data a Thechnoleg Ddigidol yn cael eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Cyfalaf 10 mlynedd i ddylanwadu a chyfeirio dyraniadau cyllid Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Beth aeth o'i le a beth yr ydym wedi'i ddysgu

Nid estyn am y sêr ddylem ni

Dylem ganolbwyntio ar gyrraedd y copa. Fis Awst y llynedd bu i ni dderbyn cynnig diddorol am ddefnyddio technoleg y gofod fel lloerennau, ym maes gofal iechyd. Fe wnaethom ofyn i rwydwaith arloesi Gogledd Cymru am syniadau. Fe wnaethant ein cysylltu â phobl sy'n gweithio ar bethau diddorol iawn. Syniadau fel defnyddio lloerennau i gysylltu peiriannau uwchsain o bell gydag arbenigwyr mewn ysbyty er mwyn iddynt allu asesu argyfyngau yn ymwneud â'r galon mewn babanod yn gyflym a sicrhau eu bod yn cyrraedd y man priodol i gael triniaeth.

Fe wnaethom lunio'r cysylltiadau ac roedd yn ymddangos fel y cyfle perffaith i bawb. Mae wedi mynd yn dawel o ran hynny yn awr, felly nid oes newyddion cyffrous i'w adrodd eto ond byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth pan ddaw.

Beth wnaethom ni ei ddysgu? Ei bod yn wych cael rhwydwaith o bobl yn gweithio ar arloesi er mwyn cysylltu â nhw pan ddaw cyfleoedd fel hyn. Ond hefyd, bod cymaint o safbwynt arloesi y tu hwnt i'n rheolaeth, gallwn greu'r amodau cywir ond yn y pendraw bydd rhai pethau'n llwyddiant ac eraill yn methu. Ni fydd hynny'n ein hatal rhag anelu am y copa!



Gwneud ein gorau

Rydym wedi cofnodi cyfres anhygoel o straeon o ran sut mae'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol wedi newid bywydau. Rydym wedi golygu, grwpio a threfnu yn ôl lliwiau nes bod gennym lyfryn clir, hardd a darllenadwy a oedd wir yn dangos gwaith y rhaglen a'r unigolion a oedd wedi cymryd rhan. Ar ôl gorffen y llyfryn, roeddem eisiau ei rannu y tu hwnt i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r unigolion a oedd wedi gweithio ar y rhaglen. Roeddem yn deall mai dim ond gyda chaniatâd gan yr unigolion a oedd wedi rhannu eu straeon y byddai modd gwneud hynny, gan fod byd o wahaniaeth rhwng siarad am eich profiadau i gynorthwyo i wella gwasanaeth a'i rannu i bawb ei weld ar y we.

Y tro hwn, ni fu modd i ni fynd yn ôl a chael caniatâd gan ddigon o bobl i rannu'r llyfryn straeon yn ehangach. Rydym yn parchu eu dewis ac er mwyn gwneud y broses yn haws yn y dyfodol mae gennym restr wirio yn awr felly byddwn yn gwybod o'r cam cyntaf pa straeon sydd i'w defnyddio'n fewnol yn unig a pha rai y gallwn eu hyrwyddo'n gyhoeddus. Mae gan unrhyw un sy'n rhannu stori ein manylion cyswllt ac yn gwybod y gallant dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg a byddwn yn rhoi'r gorau i'w rhannu. Rydym wedi ysgrifennu canllawiau ar gyfer partneriaid i sicrhau ein bod yn casglu ac yn defnyddio straeon mewn modd moesegol ac yn gwerthfawrogi'r adborth gan bobl sy'n rhannu, casglu a defnyddio straeon o ran sut y gallwn barhau i wella.

Ydych chi wedi ceisio ei ddiffodd a'i danio eto?

Gall gweithio mewn tîm amlasiantaeth achosi rhwystrau pan fydd TG yn amharu ar y broses, er enghraifft methu ateb ffôn cydweithiwr neu ddefnyddio argraffydd am eu bod ar rwydwaith gwahanol. Mae ffrwd waith 'gwneud y pethau sylfaenol yn iawn' yn ceisio datrys hynny. Mae Penaethiaid TG Gogledd Cymru wedi ystyried sut i integreiddio'r ffordd mae Microsoft 365 yn gweithio ar draws sefydliadau.

Rydym wedi dysgu ambell beth wrth wneud hynny. O gytundeb mewn egwyddor, roedd cyflwyno'r swyddogaeth negeseuon gwib yn arafach na'r disgwyl oherwydd roedd rhai camau gweithredu'n dibynnu ar ddiweddariadau system a chynnal a chadw sefydliadau unigol a'u taith gyda Microsoft 365. I roi swyddogaethau ar waith, mae angen i bob sefydliad fod ar yr un cam yn y daith Microsoft 365. Er mwyn cyrraedd y cam hwnnw, roedd angen capasiti, adnoddau, achosion busnes a chyllid ynghyd â chyngor ac arweiniad gan Swyddogion Diogelu Data Awdurdodau Lleol.



Cyfathrebu ac ymgysylltu

Y wefan

Rydym wedi parhau i rannu gwybodaeth drwy ein tudalennau gwe gan gynnwys casglu syniadau da a chronfa ddata ymgysylltu. Dyma'r uchafbwyntiau:

- Bws Dementia - gofalwyr yn gweld y goleuni
- Cathod a chŵn robot ar gyfer Dementia
- Ymgyrch Gwrando ar Ddementia.
- Prosiect profi a thrin cyflym Hepatitis C
- Asesiad iechyd blynyddol ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu
- Cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia Newydd i Ogledd Cymru

Mae tudalen Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru a hafan ein tîm ymysg y 5 o'r tudalennau yr eir arnynt amlaf ar wefan y gydweithredfa ranbarthol. Eleni bu cynnydd o 11% i 760 o ymwelwyr i hafan yr Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol.

Newyddlenni

Bu i ni rannu 10 newyddlen yn ystod y flwyddyn, yn llawn gwybodaeth am weithgareddau ymchwil, arloesi a gwelliant, a chynyddodd nifer y tanysgrifwyr o 35 o unigolion ychwanegol, gan roi cyfanswm o 205.

Y diweddaraf am Twitter

Dros y flwyddyn bu i ni dderbyn 50 o ddilynwyr ychwanegol ar eich cyfrifon Twitter / X gan roi cyfanswm o 450. Defnyddiwyd y cyfrifon Twitter i rannu syniadau da, prosiectau sy'n mynd rhagddynt, arloesedd ar draws y DU, digwyddiadau perthnasol a negeseuon trydar byw o gynadleddau. Maent hefyd wedi eu defnyddio i hybu'r gefnogaeth y gall ein tîm a sefydliadau eraill ei chynnig, i helpu gyda phrosiectau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru.

Neges Twitter boblogaidd

Beth nesaf

Yn 2024-24 byddwn yn

- **Dysgu beth sy'n gweithio'n dda:** Cynnal gwerthusiadau a gwella sut yr ydym yn casglu data a straeon am beth sydd wedi newid. Canfod ffyrdd o gyflwyno gwybodaeth yn eglur i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r gwerthusiadau eleni'n cynnwys dau brosiect preswyl arloesol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod angen gofal neu o fod yn y ddalfa yn sgil eu hymddygiad, tîm Therapi Aml-system yn Sir y Fflint a Wrecsam a gwasanaeth preswyl Bwthyn y Ddôl yn Sir Ddinbych a Chonwy. Hefyd, rydym am dreialu ffyrdd o ddefnyddio straeon i'n cynorthwyo i ddysgu a gwella model gofal iechyd a lles emosiynol.
- **Cyflwyno'r ffyrdd gorau o gefnogi pobl gydag anghenion iechyd a gofal.** Gweithio gydag ambell hwb CARh arall i nodi a rhannu syniadau da ar draws Gogledd Cymru a rhanbarthau eraill. Parhau i arbrofi gyda dulliau arloesol o uno pobl i ddatrys problemau cymhleth.
- Archwilio dewisiadau ar gyfer **cynhadledd arloesi digidol mewn gofal cymdeithasol** i roi cyfle i weithwyr gofal cymdeithasol a'r cyhoedd weld beth sy'n bosibl a rhoi cynnig ar dechnolegau newydd.
- Darparu **data, dealltwriaeth a gwybodaeth** i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a BPRh Plant, gan gynnwys gwella systemau, dadansoddiad o Gyfrifiad 2021 ac adroddiadau pwnc rheolaidd.
- **Gwella mynediad at dystiolaeth** drwy hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael gan y Llyfrgellydd Arbenigol i gael gafael ar dystiolaeth am beth sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol, a gweithio'n agos gyda rhaglenni Gofal Cymdeithasol Cymru a Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) i gefnogi'r defnydd o dystiolaeth o fewn gofal cymdeithasol.

Cysylltwch â ni

Ffôn: 01824 712432
E-bost: nwrich@sirddinbych.gov.uk
Twitter: @NW_RICH_ / @_NW_RICH
Gwefan: https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/hwb-cydlynu-ymchwil-arloesi-a-gwelliant/